**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Gweithgor Craffu - Diogelwch ar y Ffyrdd

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 7 Rhagfyr 2022 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A M Day | E W Fitzgerald | K M Griffiths |
| J A Hale | C A Holley | D H Jenkins |
| S M Jones | L R Jones | T M White |

| **Swyddogion** | |
|---|---|
| Mark Wade | Cyfarwyddwr - Lleoedd |
| Stuart Davies | Pennaeth Priffyrdd a Chludiant |
| Matthew Bowyer | Arweinydd Grŵp, Priffyrdd a Chludiant |
| Alan Ferris | Rheolwr Diogelwch Ffyrdd |
| Rachel Percival | Swyddog Craffu |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): S E Keeton a/ac A J O'Connor
Aelod(au) Cabinet: Y Cynghorydd Andrew Stevens, Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Datganodd Lyndon Jones gysylltiad personol.

## 2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

## 3 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 4 Adroddiah Diogelwch ar y Ffyrdd

Roedd y swyddogion perthnasol yn bresennol i roi trosolwg o'u hadroddiad briffio ac i ateb cwestiynau gan aelodau'r grŵp. Trafodwyd y materion canlynol:

- Mae Grant Diogelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru wedi’i rwystro am yr ail flwyddyn yn olynol oherwydd oediadau yn sgîl cyflwyno'r terfyn cyflymder 20mya. Dyma'r brif gronfa a ddefnyddir i fynd i'r afael ag ardaloedd lle ceir patrwm o wrthdrawiad ar y cyd â'r rhaglen addysg diogelwch ffyrdd.
- Nod y rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yw annog pobl i gerdded neu feicio, gyda ffocws o amgylch ysgolion.
- Cyhoeddwyd canllawiau teithio llesol yn 2013 a'u nod yw cysylltu cymunedau. Bwriad penodol y grant teithio llesol yw gwella cysylltedd rhwng cymunedau.
- Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu gostwng y terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig sy’n cynnwys ffyrdd lle gosodir goleuadau stryd i 20mya o'r terfyn 30mya presennol, sy'n cael ei fapio ar hyn o bryd. Bydd eithriadau'n cael eu hystyried fel yr eithriad yn hytrach na'r rheol a chânt eu cyflwyno i'r Cabinet tua diwedd mis Rhagfyr cyn cael eu rhannu'n ehangach. Dyma dasg sy'n drom o ran adnoddau.
- Mae'r dyraniad cyllideb gymunedol yn mynd i'r afael â materion ward unigol a materion lleol.
- Rheolir priffyrdd mewn partneriaeth â'r heddlu a Gan Bwyll sy'n golygu nad oes gan y cyngor y pŵer bob amser i weithredu ar bob cwyn a dderbynnir.

5 **Trafodaeth a Chasgliadau**

Gofynnodd aelodau'r Gweithgor nifer o gwestiynau yr ymatebodd swyddogion iddynt. Trafodwyd y prif faterion canlynol:

- Erbyn hyn, croesfannau cyfrif yn ôl yw'r arddull safonol o groesfan a chânt eu cyflwyno pan fydd angen adnewyddu croesfannau neu wrth i arian ddod ar gael.
- Mae twmpathau cyflymder yn ffordd effeithiol o gymedroli cyflymder gyrwyr. Nid bwriad twmpathau cyflymder yw arafu cyflymder bysus a cherbydau ehangach ar olwynion gan y bydd eu holwynion o boptu i’r twmpath. Gall hyn fod yn broblem os yw cerbydau'n parcio ar ochr y ffordd gan ei fod yn gorfodi cerbydau ehangach i fynd dros y twmpath.
- Cafodd cyfyngiadau cyflymder ar dir comin Gŵyr eu hadolygu'n helaeth yn 2018 ac mewn mannau cafodd y terfyn cyflymder ei ostwng o'r terfyn cyflymder cenedlaethol i 40mya. Mae ymwybyddiaeth o nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu hanafu a'u lladd gan gerbydau sy'n goryrru, a’r Heddlu a Gan Bwyll sy’n gyfrifol am orfodi’r cyfyngiadau sydd ar waith.
- Mae camerâu cyflymder yn effeithiol iawn o ran rheoli ymddygiad gyrwyr. Gan Bwyll sy'n gyfrifol am weithrediad y camerâu a'r cyngor sy'n gyfrifol am y pyst a'r marciau o amgylch safleoedd y camerâu. Mae Gan Bwyll yn cymryd rhan mewn prosesau tendro i sicrhau bod camerâu newydd yn cyd-fynd â'u systemau presennol.
- Ymgynghorir â grwpiau anabl ar bob gorchymyn rheoleiddio traffig. Y cyngor ddylai awdurdodi rhwystrau i'r droedffordd, fel byrddau a chadeiriau.
- Mae llwybrau defnydd a rennir wedi'u cynllunio’n unol â'r canllawiau teithio llesol ac maent yn dibynnu ar gydnabyddiaeth defnyddwyr i osgoi gwrthdrawiadau. Mae hwn yn fater y mae'r cyngor yn ymwybodol ohono.

- Mae cynlluniau gwylio cyflymder cymunedol yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr; nid yw gwybodaeth am y rhain yn cael ei chasglu'n ganolog felly mae eu llwyddiant yn anodd ei nodi ac yn aml yn ddibynnol ar nifer y gwirfoddolwyr.
- Mae traffig o gwmpas ysgolion yn broblem hysbys; ym Mhontarddulais mae prawf ar waith lle mae rhan o stryd ger ysgol yn cael ei chyfyngu ar amserau ysgol. Gall hyn wthio cerbydau ymhellach allan ac mae hyn o bosib ond yn symud y broblem parcio i rywle arall.
- Rhoddwyd 4,197 o docynnau parcio'r llynedd rhwng 2.45pm a 3.45pm. Mae'r tîm priffyrdd yn gallu cymryd adborth ar ardaloedd i'w targedu ar yr adeg hon.
- Gellir adrodd am fysus ysgol sy'n parcio am gyfnodau hir sy'n achosi niwsans i breswylwyr a bwydo'n ôl i'r cwmnïau bysus.
- Mae cydbwysedd i reoli risg ganfyddedig yn erbyn risg go iawn. Ymchwilir i bob pryder.
- Gall ychwanegu mesurau arafu cyflymder fel twmpathau cyflymder gael effaith andwyol ar gynnal a chadw ffyrdd. Mae gwaith atgyweirio ffyrdd yn cael ei wneud yn ôl blaenoriaeth atgyweirio.
- Mae parhau i edrych ar lwybrau cerdded diogel i ysgolion yn rhaglen barhaus ochr yn ochr â hyfforddiant Kerbcraft a beicio mewn ysgolion. Bydd llwybrau teithio llesol hefyd yn cefnogi hyn. Bydd Kerbcraft yn hyfforddi tua 1,200 o ddisgyblion eleni.
- Mae'r adrannau priffyrdd a chynllunio'n gweithio ar ganllaw dylunio strydoedd sy'n canolbwyntio mwy ar ddatblygiad lle na datblygiad strydoedd a'r briffordd.

Yna, trafodwyd cynnydd gan Aelodau'r Gweithgor a daethpwyd i'r casgliadau canlynol a gwnaethpwyd yr argymhellion canlynol:

1. Nid oedd yr aelodau'n hapus fod Grantiau Diogelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru wedi'u rhwystro oherwydd y cynllun gostwng cyflymder o 20mya.
2. Creu rhaglen waith ar annog cerdded i'r ysgol, gellid ychwanegu hyn at gynlluniau cyfredol fel Kerbcraft.
3. Mae angen i ragor o wybodaeth, arwyddion ac arweiniad fod ar gael er mwyn osgoi ymddygiad gwael ar lwybrau a rennir.
4. Ystyried dylunio rhaglen addysg fel Kerbcraft a allai gael ei lanlwytho i Hwb er mwyn i blant edrych arni gyda rhieni a gwarcheidwaid gartref.
5. Cynhelir hyfforddiant beicio mewn ysgolion a byddai gan aelodau ddiddordeb mewn gwybod pa mor aml y cynhelir hyn ac mewn faint o ysgolion.
6. Gofyn i Benaethiaid annog eu staff ysgol eu hunain i beidio â pharcio ar ffyrdd ger ysgolion.
7. Gwella prosesau ymgynghori ag aelodau ward ar ddiogelwch ffyrdd gan ganolbwyntio'n benodol ar ysgolion. Weithiau nid yw aelodau ward yn ymwybodol o ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal. Ymgysylltu mwy â Chynghorwyr pan fydd ymgynghoriadau'n digwydd yn eu wardiau fel y gallant helpu i'w cyfathrebu i'w haelodau ward.
8. A all yr Aelod Cabinet sy'n aelod o Bartneriaeth Gan Bwyll apelio at y bartneriaeth i fod yn fwy rhagweithiol yn ardal tiroedd comin Gŵyr.
9. Cynyddu'r arwyddion a'r baneri y tu allan i ysgolion fel rhwystr i atgoffa gyrwyr i yrru a pharcio'n ddiogel o amgylch ysgolion.

Yn dilyn y cyfarfod hwn:

Caiff llythyr ei ysgrifennu oddi wrth gynullydd y gweithgor i Aelod y Cabinet sy'n crynhoi'r drafodaeth ac yn amlinellu meddyliau ac argymhellion y gweithgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.23 pm.

**Cadeirydd**